
Mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein

Golwg ar y rheoliad ar safonau darlledu ac ar-alw

Gair am y ddogfen hon

Yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd, mae dadl ynglŷn ag a oes angen rheoleiddio er mwyn mynd i'r afael ag amryw o broblemau sy'n dechrau ar-lein ac yn effeithio ar bobl, busnesau a marchnadoedd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i lunio deddfwriaeth er mwyn gwella diogelwch ar-lein ac mae'n bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn y gaeaf hwn. Ym mis Gorffennaf, fe wnaeth Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin gyhoeddi adroddiad interim ar wybodaeth gamarweiniol a 'newyddion ffug'¹ yn awgrymu bod "y Llywodraeth yn defnyddio'r rheolau a roddir i Ofcom o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau i bennu a gweithredu safonau cynnwys ar gyfer darlledwyr teledu a radio, [...] fel sail i bennau safonau ar gyfer cynnwys ar-lein."

Bwriad y ddogfen drafod yw cyfrannu at y ddadl honno gan ddefnyddio ein profiad o reoleiddio'r sector cyfathrebu yn y DU, a darlledu yn benodol. Mae'n defnyddio'r prif wersi o'r gwaith o reoleiddio safonau cynnwys – ar gyfer gwasanaethau darlledu a fideo ar-alw – a'r ddealltwriaeth y gallai'r rhain eu darparu i wneuthurwyr polisi o ran yr egwyddorion a allai fod yn sail i unrhyw fodelau newydd ar gyfer mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein.

¹ Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Gwybodaeth gamarweiniol a 'newyddion ffug': Adroddiad Interim*, 29 Gorffennaf 2018.

<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmcomeds/363/363.pdf>

1. Crynodeb

Mae'r papur hwn yn nodi cyfraniad at y ddadl ynghylch sut byddai modd gwarchod pobl rhag niwed ar-lein. Byddwn yn trafod sut gallai gwersi sy'n deillio o reoleiddio'r safonau darlledu helpu i roi gwybodaeth i wneuthurwyr polisiâu wrth ystyried opsiynau o ran polisiâu. Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU sy'n gyfrifol am oruchwylio safonau cynnwys darlledu a fideo ar-alw, fel BBC iPlayer, ITV Hub neu Amazon Prime. Fel rheoleiddiwr statudol, does gennym ni ddim bwriadau yng nghyswllt unrhyw drefniadau sefydliadol a allai ddeillio o'r ystyriaethau polisi hyn.

Mae'r rhyngrwyd wedi chwyldroi sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn cael gafael ar newyddion, adloniant ac unrhyw gyfryngau eraill, gan greu marchnad gyfathrebiadau sy'n mynd yn fwyfwy cydgyfeiriol, gyda'r prif gwmnïau cyfathrebiadau yn y DU yn ymwneud mwy a mwy â thelegyfathrebiadau, cynnwys a dosbarthu ar-lein.

Mae arloesi mewn gwasanaethau ar-lein wedi sicrhau buddion mawr i unigolion a chymdeithas. Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU sy'n gyfrifol am oruchwylio safonau cynnwys darlledu a fideo ar-alw, fel BBC iPlayer, ITV Hub neu Amazon Prime. Mae'r problemau yn cynnwys:

- pobl yn agored i ymddygiad a chynnwys niweidiol;
- preifatrwydd a defnyddio data personol;
- twf seiberdrosedd;
- pryderon ynglŷn â'r ffyrdd mae busnesau ar-lein yn cystadlu, ac effaith hyn ar arloesi, buddsoddi a dewis defnyddwyr;
- yr effeithiau posibl ar gynhyrchu cynnwys, gan gynnwys newyddiaduraeth a lluosogrwydd y cyfryngau.

Mae materion sy'n ymwneud ag ymddygiad a chynnwys niweidiol – gan gynnwys deunydd amhriodol i oedran, hysbysebu gwleidyddol camarweiniol, 'newyddion ffug' a bwlio – yn feysydd y canolbwyntir arnynt. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cyflwyno deddfwriaethau i wella diogelwch ar y rhyngrwyd. Mae Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Senedd y DU wedi cyhoeddi adroddiad interim ar wybodaeth gamarweiniol a 'newyddion ffug', sy'n cynnwys argymhelliad bod y safonau darlledu presennol yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer safonau ar-lein newydd.² Bydd deddfwriaeth Ewropeaidd newydd yn ymestyn rhai nodweddion gwarchod i gynnwys llwyfannau rhannu fideos fel YouTube am y tro cyntaf. Mae'r prif lwyfannau ar-lein wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau sydd â'r bwriad o ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol, ond mae pryderon ynglŷn â pha mor gyson ac effeithiol yw'r mesurau hyn mewn gwirionedd.

Mae'r ddadl hon yn canolbwyntio ar lwyfannau ar-lein, gan gynnwys safleoedd rhannu fideos, rhwydweithiau ar y cyfryngau cymdeithasol a pheiriannau chwilio. Felly, mae'n mynd i'r afael ag ystod o gynnwys ar-lein – sy'n amrywio o ddeunydd 'tebyg i deledu' a gyhoeddir gan sefydliadau cyfryngau ar-lein, i bostiadau neu negeseuon trydar unigol gan aelodau o'r cyhoedd.

² Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Gwybodaeth gamarweiniol a 'newyddion ffug': Adroddiad Interim*, 29 Gorffennaf 2018.

<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmcomeds/363/363.pdf>

Mae'r gyfundrefn reoleiddio sy'n delio â chynnwys ar-lein wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae anghytuno sylweddol o hyd o ran p'un ai a ddylai cynnwys ar-lein gael ei reoleiddio a sut. Mae'r ffiniau rhwng darlledu a'r byd ar-lein yn cael eu hail-lunio, ac mae goblygiadau i hyn o ran a yw'r cyhoedd yn deall pa lefel o ddiogelwch sy'n berthnasol wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.

Mae'r ddogfen drafod yn ystyried rhai gwersi, gan ddefnyddio ein profiad fel y rheoleiddiwr darlledu a chynnwys ar-alw, a allai fod yn sail i ddyluniad unrhyw gyfundrefn reoleiddio ar gyfer cynnwys ar-lein yn y dyfodol. Rydym hefyd yn nodi rhai heriau allweddol a geir wrth ddefnyddio profiadau o reoleiddio darlledu yng nghyswllt cynnwys ar-lein.

Ochr yn ochr â'r papur hwn, byddwn yn cyhoeddi ymchwil newydd sydd wedi'i gynnal ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â phrofiadau pobl o broblemau yng nghyswllt diogelwch ar-lein. Canfuwyd bod saith o bob deg defnyddiwr rhyngwyd yn y DU yn mynegi pryderon ynghylch ymddygiad neu gynnwys niweidiol ar-lein, a bod chwarter y bobl yn dweud eu bod wedi cael eu niweidio ar ryw lefel.

Gwersi allweddol o brofiad Ofcom

Does dim modd trosglwyddo fframweithiau fel ag y maent ar gyfer y byd ar-lein. Rydym yn trafod heriau penodol a gyflwynir ar-lein a sut gallai'r rhain effeithio ar reoleiddio – gan gynnwys:

- **Graddfa:** mae swm aruthrol y testun, sain a fideo sy'n cael eu cynhyrchu a'u rhannu gan llwyfannau ar-lein yn llawer mwy na'r hyn sydd ar gael ar radio a theledu a ddarlledir.
- **Amrywiaeth o leisiau, barn, a mathau o gynnwys:** mae amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael ar-lein yn llawer ehangach na'r cynnwys darlledu traddodiadol sydd ar gael, ac mae'n cynnwys deunydd wedi'i greu gan ddefnyddwyr a sgysiau rhwng pobl.
- **Rôl o ran creu cynnwys:** nid yw llawer o llwyfannau ar-lein yn creu nac yn comisiynu'r cynnwys y mae eu defnyddwyr yn cael mynediad atynt, ond mae ganddyn nhw rôl o ran pennu beth mae'r defnyddwyr yn ei weld.
- **Arloesi ac amrywiaeth o ran gwasanaeth:** mae natur a nodweddion gwasanaethau ar llwyfannau ar-lein yn amrywio'n helaeth, gan gynnwys lefel y rheolaeth sydd gan ddefnyddwyr dros ba gynnwys maent yn ei weld.
- **Natur amlwladol gweithredwyr llwyfannau ar-lein:** mae llawer o weithredwyr llwyfannau nad ydynt wedi'u lleoli yn y DU, a allai olygu goblygiadau o ran gorfodi.

Mae disgwyliadau'r gynulleidfa a'r cyd-destun yn amrywio rhwng darlledu a chynnwys ar-lein.

Mewn rhai meysydd, mae disgwyliadau pobl o ran diogelwch ar-lein yn debyg i'r safonau ar gyfer darlledu – amddiffyn plant a phobl ifanc, diogelwch rhag cynnwys anghyfreithlon neu ymddygiad a chynnwys niweidiol arall. Mae safonau darlledu penodol – fel y rhai yng nghyswllt didueddrwydd a chywirdeb – a allai fod yn anymarferol i'w cyflwyno yn yr un modd ar-lein, neu efallai neu na ddymunir eu cyflwyno yn yr un modd. Gallai dulliau eraill ganolbwyntio ar dryloywder, e.e. llwyfannau yn ei gwneud yn glir i ddefnyddwyr o ble mae cynnwys newyddion yn dod ac a oes modd ymddiried ynddo.

Fodd bynnag, gallai rhai egwyddorion rheoleiddio darlledu fod yn berthnasol wrth i wneuthurwyr polisiâu ystyried materion ynghylch amddiffyn ar-lein:

- **Mesurau amddiffyn a sicrwydd** yn erbyn cynnwys ac ymddygiad niweidiol.

- **Cynnal rhyddid mynegiant.**
- **Gallu addasu dros amser** er mwyn caniatáu i ymddygiad a disgwyliadau defnyddwyr newid, ac i ddiwydiant arloesi er mwyn addasu'r ffordd orau o amddiffyn ei ddefnyddwyr.
- **Tryloywder** o ran pa wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a'r rheolau sy'n sail i'r weithdrefn reoleiddio.
- **Gorfodaeth** yn erbyn ymddygiad gwael, drwy sancsiynau cymesur ac ystyrllon.
- **Annibyniaeth** o ran gwneud penderfyniadau sy'n datblygu hygredd ac yn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd.

Rydym yn ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill y mae eu dyletswyddau – fel ein rhai ni – yn ymwneud â'r rhyngwladol, er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni gwaith ynghylch niwed posibl ar-lein yn cyd-fynd â'i gilydd. Yn fuan yn 2019, byddwn yn cynnal cynhadledd i reoleiddwyr o'r DU a rheoleiddwyr rhyngwladol sydd â chylch gwaith ac arbenigedd cysylltiedig â'r materion hyn. Rydym yn gweithio'n agos iawn â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac yn datblygu rhaglen gwaith ac ymchwil ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.